# DDEDDF YW 'DEDDF CYFRAITH SY'N DEILLIO O'R UNDEB EWROPEAIDD (CYMRU) 2018

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU'R DDEDDF

### *Adran 20 – Dehongli cyffredinol*

135. Mae'r nodiadau esboniadol eisoes wedi amlygu nifer o'r termau a ddiffinnir yn adran 20 drwy gyfeirio at y darpariaethau y maent yn berthnasol iddynt.

136. Mae 'diwrnod ymadael' yn derm allweddol yn y Ddeddf ac fe'i diffinnir yn adran 20(1). Mae i'w benodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae Erthygl 50(3) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn darparu y bydd y Cytuniadau yn peidio â bod yn gymwys i'r DU o'r dyddiad y daw'r cytundeb ymadael i rym neu, os na ddigwydd hynny, ddwy flynedd ar ôl yr hysbysiad o dan Erthygl 50(2). Mae Erthygl 50(3) yn mynd yn ei blaen i ddarparu y caiff y Cyngor Ewropeaidd, drwy gytuno â'r DU, benderfynu'n unfrydol i estyn y cyfnod hwn.

137. Ar 29 Mawrth 2017, hysbysodd y DU y Cyngor Ewropeaidd am ei bwriad i ymadael â'r UE. Os na chytunir ar gytundeb ymadael yn gyntaf neu os na chytunir ar estyniad rhwng y DU a'r Cyngor Ewropeaidd, bydd y Cytuniadau yn peidio â bod yn gymwys am 11:00pm ar 29 Mawrth 2019. Diffinnir 'Treaties' yn Erthygl 1 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd fel y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

138. Mae gadael penodi'r diwrnod ymadael i reoliadau yn adlewyrchu'r posibiliadau y darparwyd ar eu cyfer o dan Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd. Wrth wneud rheoliadau sy'n pennu'r diwrnod ymadael, rhaid i Weinidogion Cymru gadw at y gofynion a nodir yn adran 20(4).

139. Yn gyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r diwrnod a benodir at yr un dibenion neu at ddibenion tebyg mewn neu o dan Ddeddf gan Senedd y DU i roi effaith i ymadawiad y DU â'r UE. Os caiff ei basio, bydd y diwrnod ymadael a bennir yn y Bil i Ymadael â'r UE sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn dod yn berthnasol i arfer p#er Gweinidogion Cymru i benodi diwrnod ymadael at ddibenion y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu'r un diwrnod ymadael.

140. Mae'r ail ofyniad yn adran 20(4) yn darparu na all Gweinidogion Cymru bennu'r diwrnod ymadael ar adeg pan fo'r Cytuniadau yn dal i fod yn gymwys i'r DU. Mae Erthygl 50 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd yn darparu ar gyfer ymadawiad Aelod-wladwriaethau â'r UE ac mae Erthygl 50(3) yn darparu ar gyfer yr adeg pan fo'r Cytuniadau i beidio â bod yn gymwys i Aelod-wladwriaeth. Felly, mae adran 20(4)(b) yn sicrhau na all y diwrnod ymadael ond bod yn adeg ar ôl i'r Cytuniadau beidio â bod yn gymwys i'r DU yn unol ag Erthygl 50(3). Ni allai Gweinidogion Cymru bennu dyddiad pan fo'r Cytuniadau yn dal i fod yn gymwys oherwydd y cyfyngiad ar wneud deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE a geir yn adran 80(8) o DLlC 2006, ond mae adran 20(4)(b) yn cadarnhau'r sefyllfa hon. Y Cytuniadau at ddibenion

adran 20(4)(b), sy'n gyson â'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd, yw'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, ond yn rhinwedd adran 20(7) mae hefyd yn dal Cytuniad Euratom.

141. Mae adran 20(2) yn cynnwys darpariaeth bellach sy'n berthnasol i'r diffiniad o'r diwrnod ymadael. Mae nifer o'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gweithredu gan gyfeirio at cyn, ar ôl neu ar y diwrnod ymadael. Mae adran 20(2) yn egluro'r union adeg y mae cyfeiriadau o'r fath i'w darllen. Pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae cyfeiriadau i'w darllen yn unol â'r amser a bennir. Er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru yn penodi 11:00pm ar 29 Mawrth 2019, mae cyfeiriad yn y Ddeddf at reoliadau yn dod i rym ar y diwrnod ymadael i'w ddarllen fel cyfeiriad at y rheoliadau hynny yn dod i rym am 11:00pm ar 29 Mawrth 2019. Pan na fo Gweinidogion Cymru yn penodi amser yn ogystal â diwrnod fel y diwrnod ymadael, mae unrhyw gyfeiriad at y diwrnod ymadael yn y Ddeddf i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddechrau'r diwrnod hwnnw.